

# Dechrau Blwyddyn

---

**Edrychwn ymlaen i'r flwyddyn newydd. Beth sydd o'n blaenau? 12 mis, 52 o wythnosau, 365 o ddyddiau (366 mewn blwyddyn naid), 8760 o oriau, 525,600 o funudau a 31,536,000 o eiliadau. Rhodd Duw i ni.**

## EMYNAU

**Dyheu mae'r emynydd am gael dechrau'r flwyddyn gyda Duw, dod dan ddylanwad yr Ysbryd Glân a'r ysbryd hwnnw yn ein hadfywio:**

O am ddechrau blwyddyn newydd  
gyda Duw mewn mawl a chân;  
doed yn helaeth, helaeth arnom  
ddylanwadau'r Ysbryd Glân:  
bydded hon ymysg blynyddoedd  
deau law yr uchel Dduw;  
doed yr anadl ar y dyffryn  
nes bod myrdd o'r meirw'n fyw.

Joseph Evans (*Caneuon Ffydd*: 90)

**Mae dechrau'r flwyddyn yn gyfle i ddechrau o'r newydd a disgwyl am wanwyn Duw i roi bywyd newydd i ni:**

I Dduw y dechreuadau  
rhow'n fawl am ddalen lân, ...  
awn rhagom i'r anwybod  
a'n pwys ar ddwyfol fraich;  
rho nerth am flwyddyn arall  
i bobun ddwyn ei faich. ...

a hithau'n ddyfnder gaeaf  
disgwyliwn wanwyn Crist ...

John Roderick Rees (*Caneuon Ffydd*: 87)

**Edrych yn ôl ar daith y flwyddyn a aeth heibio mae Griffith Penar Griffiths ym mhennill cyntaf ei emyn:**

Cawsom gerdded yn ddiogel  
drwy beryglon blwyddyn faith;  
gwnaethost ti bob storm yn dawel  
oedd yn bygwth ar y daith.

Penar (*Caneuon Ffydd*: 91)

**Mae'n bur debyg mai geiriau'r proffwyd Sechareia, 'A bydd yn un diwrnod – y mae'n wybyddus i'r Arglwydd – heb wahaniaeth rhwng dydd a nos; a bydd goleuni gyda'r hwyr' (Sechareia 14: 7) a symbylodd T. Gwynn Jones i ysgrifennu'r emyn hwn:**

Pan fo'n blynyddoedd ni'n byrhau,  
pan fo'r cysgodion draw'n dyfnhau,  
tydi, yr unig un a wŷyr,  
rho olau'r haul ym mrig yr hwyr.

T. Gwynn Jones (*Caneuon Ffydd*: 173)

**Yn *Y Dysgedydd*, cyfnodolyn gan yr Annibynwyr y bu Tom Eirug Davies yn ei olygu rhwng 1943 a 1951, yr ymddangosodd yr emyn hwn gyntaf ym 1947 a'i ddymuniad yw cael profi 'hedd ei gariad, doed a ddêl':**

Nefol Dad, erglyw ein gweddi  
wrth wŷnebu'r flwyddyn hon,  
mae'n hamserau yn dy ofal,  
a'n helyntion ger dy fron;  
dyro brofi  
hedd dy gariad, doed a ddêl.

T. Eirug Davies (*Caneuon Ffydd*: 72)

**Geiriau Salm 31: 15 'Y mae fy amserau yn dy law di; gwared fi rhag fy ngelynion a'm herlidwyr' fu'n ysbrydoliaeth i Nantlais gyfansoddi'r emyn sy'n dechrau fel hyn:**

Yn dy law y mae f'amserau,  
ti sy'n trefnu 'nyddiau i gyd,  
Nantlais (*Caneuon Ffydd*: 71)

## GWEDDIAU

### **Diolchwn am gefnogaeth Duw yn y gorffennol a chydnabyddwn fod gennym amser, digonedd o amser:**

Gwae ni o golli amser,  
gwastraffu amser,  
lladd amser  
oherwydd y mae amser yn rhodd oddi wrthyt ti.  
Arglwydd, y mae gennyf amser,  
yr holl amser yr wyt ti'n ei roi i mi,  
blynyddoedd fy mywyd,  
dyddiau fy mlynyddoedd,  
oriau fy nyddiau –  
y maent i gyd yn eiddo i mi  
i'w llenwi'n dawel, yn llwyr ac i'r ymylon. Amen.

Michel Quoist

### **Cyflwynwn ein hunain i Dduw a gofynnwn iddo ein gwarchod a'n hadnewyddu:**

Wrth i ni wynebu'r dyfodol  
gweddiwn am gael clywed dy lais a'th Air di  
yn addo i ni arweiniad, nerth ac ymgeledd.

Cyflwynwn ein hunain i'th ofal:  
cysgoda drosom,  
gwarchod ni, nertha ni pan fo gwendid yn ein llethu;  
arwain ni pan awn ar ddisberod;  
adnewyddu'n gobaith pan fyddwn yn digalonni;  
canolbwyntia ein meddyliau ar Iesu Grist, ein Bugail da,  
a phâr i ni ymddiried bob amser yn ei ofal tyner ef. Amen.

R. Tudur Jones

**Edrychwn yn ôl mewn diolchgarwch ac edrychwn ymlaen yn hyderus:**

Arglwydd ein Duw, diolchwn i ti am gael camu i flwyddyn newydd arall. Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn a aeth heibio, diolchwn i ti am dy gariad a'th ofal trosom. Bu i ni fwynhau dy fendithion bob dydd, 'bob bore y deuant o'r newydd, mawr yw dy ffyddlondeb'. Cynorthwya ni i werthfawrogi dy roddion, ac i gydnabod mai ynot ti yr ydym 'yn byw, yn symud ac yn bod'. Cydnabyddwn inni ar brydiau dy anghofio a throi cefn arnat, ond ni wnest ti erioed ein hanghofio a throi cefn arnom. Cynorthwya ni yn ystod y flwyddyn hon i fod yn fwy gwerthfawrogol o'th roddion, yn fwy ffyddlon i ti, ac i'n cysegru ein hunain yn llewyrch yn dy waith ac mewn gwasanaeth i eraill. Amen.

Ifan Roberts

**Arwain ni ar ddechrau blwyddyn i anturio ymlaen ac i roi o'n gorau:**

Dyro inni gael gwared â beichiau a gofidiau y flwyddyn a aeth heibio. Gweddiwn am arweiniad yr Ysbryd Glân i ymgyflwyno i Iesu Grist gan sylweddoli mai 'Ef yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd'. Ynddo ef, ac iddo ef a thrwyddo ef y gallwn fyw'n llawn. Gwna ni'n fwy ffyddlon iddo yn ein byw. Gwna ni'n fwy didwyll yn ein haddoliad. Gwna ni'n fwy tebyg iddo. Amen.

John Owen

**Derbyn ein diolch am dy gysgod a'th haelioni i ni yn y gorffennol, ac ar ddechrau blwyddyn newydd gafael yn ein llaw i'n harwain trwy'r presennol i'r dyfodol:**

Tywys ni ar hyd y ffordd,  
nid yn ôl ein chwantau ni ond yn ôl d'ewyllys di,  
nid yn ôl ein gwendid ni ond yn ôl dy gryfder di.

O Dduw,  
bywha ni yn ein haddoliad,  
cadarnha ni yn ein gwasanaeth i eraill  
a grymusa ni mewn tystiolaeth.

Ti ydi'r flwyddyn newydd.

Ti ydi'r ddalen lân yn eich llyfr amser,

Ti ydi'r cyfle newydd yn eich ffordd o fyw,

Ti ydi'r cyfle i adnewyddu'ch bywyd a'ch perthynas â'r hwn a ddywedodd,

'Wele, yr wyf yn gwneud pob peth yn newydd.' Amen.

### **Gweddi o ymbil. Cyflwynwn ein hunain a'n gilydd a phawb sydd mewn angen, gwendid a gofid i ofal ac ymgeledd Duw:**

Yn dy law di, Arglwydd, y mae'n hamseroedd;

cyflwynwn ein dyddiau oll i ti,

gan ofyn am dy gymorth

i gyflawni dy ewyllys di ynddynt.

Cyflwynwn i ti bawb sydd mewn pryder a phoen,

mewn hiraeth ac unigrwydd:

goleua'u llwybrau a nertha'u camre ymlaen,

a chymorth ni oll i fyw yn fwy teilwng ohonot,

er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts

## **ADNODAU**

### **Duw tragwyddoldeb yw Duw yn ôl y Salmydd:**

Oherwydd y mae mil o flynyddoedd yn dy olwg

fel doe sydd wedi mynd heibio,

ac fel gwyliadwriaeth yn y nos.

Salm 90: 4

### **Gan mai byr yw ein dyddiau mor bwysig yw gwneud yn fawr o bob diwrnod:**

Deng mlynedd a thrigain yw blynyddoedd ein heinioes,

neu efallai bedwar ugain trwy gryfder, ...

ânt heibio yn fuan, ac ehedwn ymaith.

Felly dysg ni i gyfrif ein dyddiau,  
inni gael calon ddoeth.

Salm 90: 10, 12

### **Ym myd Duw y mae trefn ac amser i bob peth:**

Y mae tymor i bob peth, ac amser i bob gorchwyl dan y nef:  
amser i eni, ac amser i farw,  
amser i blannu, ac amser i ddiwreiddio'r hyn a blannwyd.

Pregethwr 3: 1–2

### **Cyhoeddi ei grwsâd mae Iesu yn y synagog yn Nasareth:**

“Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf,  
oherwydd iddo f'eneinio  
i bregethu'r newydd da i dlodion.  
Y mae wedi f'anfon i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion,  
ac adferiad golwg i ddeillion,  
i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd,  
i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd.”

Luc 4: 18–19

### **Mae'r gwinllannydd yn awyddus iawn i roi ail gyfle i'r ffigysbren:**

Ac os daw â ffrwyth y flwyddyn nesaf, popeth yn iawn; onid e, cei ei dorri i lawr.

Luc 13: 9

### **Yn nhermau'r Duw tragwyddol peidiwn â cholffarnu ein methiant yn y tymor byr:**

Gyfeillion annwyl, peidiwch ag anghofio'r un peth hwn, fod un diwrnod yng ngolwg yr Arglwydd fel mil o flynyddoedd, a mil o flynyddoedd fel un diwrnod.

2 Pedr 3: 8

## DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Dywedais wrth y dyn oedd yn sefyll wrth borth y flwyddyn, ‘Rho oleuni i mi fel y gallaf droedio’n saff i’r anwybod.’ Atebodd fi, ‘Dos allan i’r tywyllwch a rho dy law yn llaw Duw. Bydd hyn yn well i ti nag unrhyw oleuni ac yn saffach nag unrhyw ffordd.’

Beth a ddigwyddodd ar 6 Medi 1752? Dim. Doedd y dyddiad hwnnw ddim yn bod!

Yn ôl Calendr Enlli dylech nodi pa fath o dywydd a gewch rhwng y 6ed a’r 18fed o Ionawr. Yn ôl y Calendr bydd tywydd y deuddeng niwrnod yn cyfateb i dywydd y deuddeg mis yn ystod gweddill y flwyddyn.

Awr fawr Calan,  
dwy ŵyl Eilian  
a thair Gŵyl Fair.

Awr fawr Galan sef yr Hen Galan ar 12 Ionawr, Gŵyl Eilian ar 29 Ionawr a Gŵyl Fair ar 13 Chwefror. Pa mor gywir tybed?